Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Nodiadau Esboniadol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (‘Y Ddeddf’) yn nodi’r gofynion ar gyfer system reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.

2. Cyhoeddir y fframwaith hwn i fodloni’r dyletswyddau canlynol yn y Ddeddf:

   - 27 (5) Amodau Cofrestru Cychwynnol
   - 28 (7) Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol
   - 40 (2) Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau o dan adran 39
   - 50 (4) Fframwaith Sicrhau Ansawdd
   - 81 (3) Datganiad ar Swyddogaethau Ymyrryd
   - 126 (6) Cynlluniau Diogelu Dysgwyr
   - 129 (5) Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

3. Bydd Medr yn cyflawni ei swyddogaethau gan roi sylw i bwysigrwydd diogelu’r rhyddid o fewn y gyfraith sydd gan ddarparwyr addysg yng Nghymru i gynnal eu trefniadau rheoli o ddydd i ddydd mewn ffordd effeithiol a chymwys. Ni ddylid dehongli bod unrhyw beth yn y dogfennau rheoleiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol wneud unrhyw beth sy’n anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy’n berthnasol i’r corff llywodraethu yn rhinwedd y ffaith bod y darparwr yn elusen, neu â dogfennau llywodraethu’r darparwr.

4. Gall Medr ddiwygio dogfennau rheoleiddio cyhoeddedig pan fo angen. Pan fo newid yn un sylweddol - hynny yw, yn newid cynnwys, effaith neu weithrediad gofynion rheoleiddio - byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn unol â’n rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, cyn penderfynu a ddylid parhau ag unrhyw ddiwygiadau a sut y dylid gwneud hynny.

5. Pan fo newid yn un ansylweddol - er enghraifft, cywiro camgymeriadau bach, mireinio iaith, gwella eglurder neu ddyluniad, neu wella hygyrchedd – gallwn wneud y newid heb ymgynghoriad. Bydd pob newid, boed yn sylweddol neu’n ansylweddol, yn cael ei gofnodi a’i reoli drwy ein trefniadau rheoli fersiynau, gan gynnwys cyhoeddi cylchlythyrau ychwanegol, fel bod diweddariadau’n cael eu dogfennu’n glir ac yn hawdd eu holrhain ar gyfer darparwyr a dysgwyr.

## Cefndir

6. Mae'r Ddeddf yn nodi'r system y bydd Medr yn ei defnyddio i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Mae’r system newydd yn seiliedig ar Gofrestr ar gyfer darparwyr addysg uwch, gyda Fframwaith Rheoleiddio cysylltiedig sy'n cynnwys amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus ac amodau cyllido.

7. Bydd rhai elfennau o'r Fframwaith Rheoleiddio hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill yng Nghymru trwy amodau cyllido, fel y nodir yn Ffigur 1 a Ffigur 2. Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd ag amodau cyllido, ac mae ganddo bwerau i ymyrryd neu rybuddio Gweinidogion Llywodraeth Cymru, y mae ganddynt hwythau bwerau i ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach.

8. Fel y nodir yn ein Dogfennau Cwestiynau Cyffredin, o fis Awst 2026 bydd y Gofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn cael ei lansio, a bydd y set gyntaf o ofynion cofrestru a chyllid yn dechrau bod yn berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys yr holl amodau ar wahân i'r Amod Cyfle Cyfartal a'r Amod Terfynau Ffioedd (a fydd yn dod i rym o fis Awst 2027). O fis Awst 2027, bydd yr holl ofynion cofrestru yn dod i rym.

***Ffigur 1 – Fframwaith Rheoleiddio***

| Amodau Cofrestru | | Amodau Cyllido |
|---|---|---|
| Cychwynnol | Parhaus | Cyllido |
| Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol | Cynaliadwyedd Ariannol |
| Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli | Llywodraethu a Rheoli |
| Ansawdd | Ansawdd | Ansawdd |
| Lles Staff a Dysgwyr | Lles Staff a Dysgwyr | Lles Staff a Dysgwyr |
| | Y Gymraeg | Y Gymraeg |
| | Cynllun Diogelu Dysgwyr | Cynllun Diogelu Dysgwyr |
| | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr |
| | Cyfle Cyfartal | Cyfle Cyfartal |
| | Gweithdrefnau Cwynion | Gweithdrefnau Cwynion |
| | Sylw i Gyngor a Chanllawiau | Sylw i Gyngor a Chanllawiau |
| | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad |
| Trefniadau Dilysu | Trefniadau Dilysu | |
| Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn unig) | Statws Elusennol (Categori Craidd AU yn unig) | |
| Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | |
| | Terfynau Ffioedd (Categori Craidd AU Yn Unig) | |
| | Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth | |
| | Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru | |

- melyn - amodau cofrestru sydd hefyd yn amodau cyllido ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru
- gwyrdd - amodau cofrestru yn unig (h.y. nid amodau cyllido)

9. Mae gan Medr ddyletswyddau mewn perthynas â monitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru ac amodau cyllido, a phwerau i ymyrryd lle ceir risg o beidio â chydymffurfio ar gyfer unrhyw amodau. Bydd holl gyrsiau addysg uwch darparwyr ar y Gofrestr addysg uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y trefniadau hyn. Mae Ffigur 2 yn disgrifio sut y mae amodau'n berthnasol i wahanol rannau o'r sector trydyddol.

***Ffigur 2 – Trosolwg o sut y mae agweddau ar y fframwaith yn berthnasol i'r sector trydyddol***

| Darpariaeth | Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd | Amodau Cofrestru | Amodau Cyllido [1] | Monitro a Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd | Fframwaith Ansawdd |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg uwch (gan gynnwys trefniant breinio/ is-gontractio) | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ |
| Cyrsiau addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliad | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg bellach | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prentisiaethau | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dysgu oedolion yn y gymuned | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Chweched dosbarth mewn ysgolion[2] | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ | ✓ |
| Darpariaeth Drydyddol Arall[3] | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ |

10. Dylid nodi bod rhai amodau o fewn y system reoleiddio'n cael eu hategu gan ganllawiau, fframweithiau neu godau ychwanegol oherwydd eu bod yn ofynnol fel rhan o'r Ddeddf, er enghraifft ar gyfer Ansawdd ac Ymgysylltu â Dysgwyr. Yn yr un modd, mae angen i amodau fel Cynaliadwyedd Ariannol, Llywodraethu a Rheoli, a Chyfle Cyfartal ystyried safonau allanol arwyddocaol neu ddyletswyddau cyfreithiol. Yn yr achosion hyn, mae canllawiau atodol yn helpu darparwyr i ddehongli a chymhwyso'r amodau mewn ffordd sy'n gymesur, yn sensitif i'r cyd-destun, ac yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau presennol. Mae amodau eraill yn fwy syml eu natur neu wedi'u gwreiddio mewn dyletswyddau statudol sefydledig, ac felly nid oes angen canllawiau ychwanegol yn eu cylch.

[1] Efallai y bydd telerau ac amodau ar gyfer grantiau addysg uwch penodol y tu hwnt i'r amodau cyllido.
[2] Dim ond trwy eu hawdurdod lleol y caiff lleoliadau chweched dosbarth mewn ysgolion eu cwmpasu gan amod cyllid Medr mewn perthynas ag Ansawdd.
[3] Mae hyn yn cwmpasu unrhyw ddarpariaeth addysg drydyddol neu hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru gan ddarparwr nad yw'n cael ei reoleiddio na'i gyllido gan Medr

11. Mae’r amodau cofrestru neu gyllido yn nodi’r gofynion gorfodol y mae’n rhaid i ddarparwyr eu hateb i gydymffurfio â’r system reoleiddio. Mae’r rhain yn gyfreithiol rwymol a dyma’r sail ar gyfer monitro, sicrwydd, ac ymyrryd posibl. Mewn cyferbyniad, nid yw canllawiau’n rhwymo ond maent yn cynorthwyo darparwyr i ddehongli a chymhwyso’r amodau, yn enwedig lle mae’r cynnwys yn gymhleth, yn esblygu, neu lle dylanwedir arnynt gan safonau allanol. Dros amser, gall Medr adolygu a diwygio’r amodau cofrestru neu gyllido ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, a bydd Medr yn ymgynghori â’r sector ynghylch unrhyw newidiadau perthnasol a wneir i’r amodau hynny a chanllawiau cysylltiedig.

12. Un o nodau sylfaenol ein cynllun strategol yw "*Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo*". Er mwyn ategu’r nod hwn, rydym yn nodi yn ein dull rheoleiddio, ddatganiad sy’n disgrifio'r egwyddorion arweiniol y byddwn yn ymlynu wrthynt wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, gan amcanu at wireddu ein gweledigaeth *"...i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy’n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a’r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu’n greiddiol iddi”.*

13. Mae ein dull yn nodi ein bod yn ymrwymedig i reoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar risg, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd. Mae'r dull hwn yn integreiddio cryfderau rheoleiddio seiliedig ar reolau (cydymffurfio) a seiliedig ar nodau (gwella’n barhaus), gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfedd darparwyr a gyrru gwelliannau yn eu blaenau. Mae hyn wedi tanategu datblygiad y system reoleiddio newydd.

14. Mae Medr yn parhau i ddatblygu trefniadau monitro mewn perthynas â chydymffurfio â phob un o'r amodau. Ar gyfer amodau cofrestru neu amodau cyllido, bydd gennym bwerau i ymyrryd i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Mae datganiad o'n swyddogaethau ymyrryd a bennir yn y Ddeddf wedi’i nodi yn ein Datganiad o Bwerau Ymyrryd.

15. Pan fydd darparwr yn cyflwyno mwy nag un math o ddarpariaeth, er enghraifft, addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, neu ddysgu oedolion yn y gymuned, bydd Medr yn defnyddio un dull integredig o fonitro. Mae hyn yn golygu y byddwn yn asesu cydymffurfedd ar draws pob math o ddarpariaeth mewn ffordd gydgysylltiedig, gan osgoi dyblygu a chydnabod lle ceir trawsgroesiad rhwng y gwahanol fathau hynny o ddarpariaeth (er enghraifft, ym maes llywodraethu a rheoli).

16. Fel sefydliad sy’n dysgu, mae Medr yn ymrwymedig i werthuso a gwella ein dull yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond asesu cydymffurfedd darparwyr â gofynion monitro, ond hefyd adolygu effeithiolrwydd y systemau a’r offer monitro eu hunain. Byddwn yn ystyried a yw’r mecanweithiau hyn yn darparu mewnwelediadau ystyrlon, yn cefnogi gwelliant, ac yn parhau i fod yn gymesur â'r risgiau y maent wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â hwy. Lle y bo angen, byddwn yn addasu ein dull mewn ymateb i adborth gan y sector, tystiolaeth sy’n dod i’r amlwg a phrofiad ymarferol, gan sicrhau bod ein system reoleiddio yn esblygu mewn ffordd sy'n ategu atebolrwydd ac arloesi. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu hategu gan ymgynghoriad â'r sector.

17. Ar gyfer addysg uwch, mae’r Gofrestr o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ('y Gofrestr') yn elfen allweddol o'r system reoleiddio newydd. Bydd dau gategori cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch:

- **Darparwyr Addysg Uwch (Craidd)** - Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth myfyrwyr Llywodraeth Cymru ar lefel ffioedd uwch, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr yn y categori hwn hefyd yn gymwys i gael cyllid grant addysg uwch Medr.
- **Darparwyr Addysg Uwch (Amgen)** - Bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth myfyrwyr Llywodraeth Cymru ar lefel ffioedd is, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ni fydd darparwyr yn y categori hwn yn gymwys i gael cyllid grant addysg uwch.

18. Ar gyfer darparwyr addysg uwch sy'n ceisio cael eu cofrestru yn y naill gategori neu'r llall, bydd cael eu derbyn ar y Gofrestr yn amodol ar gydymffurfio ag amodau cofrestru cychwynnol. Unwaith y byddant wedi'u cofrestru, bydd angen i ddarparwyr gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus.

19. Drwy ein dogfennaeth i gyd cyfeirir at 'rhaid', 'dylai', a 'bydd.' Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol.

20. Disgwyliadau:

**Rhaid i Ddarparwyr**
Lle mae Medr yn defnyddio'r term 'rhaid', mae'n golygu ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu'n ofyniad rheoleiddio penodol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn.

**Bydd Darparwyr Yn (neu Bydd Disgwyl i Ddarparwyr)**
Ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio camau gweithredu neu ymrwymiadau y mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr eu cyflawni fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoleiddiol. Mae'r datganiadau hyn yn aml yn adlewyrchu rhwymedigaethau neu arferion safonol yn y dyfodol.

Ein Cyngor:

**Dylai Darparwyr**
Lle mae Medr yn defnyddio'r term 'dylai', mae'n cyfeirio at gamau gweithredu neu arferion y rhoddir anogaeth gref iddynt ond nad ydynt yn ofynnol yn gyfreithiol yn yr Amodau Cofrestru neu Gyllido; fodd bynnag, byddai Medr yn disgwyl i gyrff llywodraethu (neu gyrff cyfatebol) ystyried canllawiau o'r fath. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae darparwr wedi rhoi sylw dyladwy i ddarpariaethau 'dylai' wrth asesu risg y darparwr.

**Gall Darparwyr**
Mae hyn yn dynodi bod gan y darparwr yr opsiwn i gymryd y cam gweithredu a ddisgrifir. Nid yw'n creu gofyniad, disgwyliad, na rhwymedigaeth ddealledig. Nid oes unrhyw ganlyniad rheoleiddiol os dewisir peidio â chymryd y cam gweithredu.

Diffinnir rhagor o derminoleg fel rhan o'n Rhestr Termau.

21. Nid yw pob elfen o'r system newydd yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant. Mae'r elfennau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwahanol fathau o ddarpariaeth wedi'u nodi yn Ffigur 2. Mae peth darpariaeth y mae darparwyr addysg

uwch yn gyfrifol amdani yn cael ei chyflwyno trwy ddarpariaeth freinio neu is-gontractio.

22. Mae’r fframwaith yn nodi’r amodau cofrestru neu amodau cyllido fel y’u diffinnir yn y Ddeddf a rheoliadau cysylltiedig. Mae’r amodau hyn yn berthnasol ar draws gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru ac fe’u cyflwynir yn y tabl isod. Mae Ffigur 3 yn darparu crynodeb sy’n nodi pa amodau sy’n berthnasol i bob categori o ddarpariaeth (gan nodi y bydd gan rai darparwyr fwy nag un math o ddarpariaeth).

23. Natur ein dogfennaeth:

**Dogfennau Statudol**
Dogfennau statudol yw’r rhai sy’n ofynnol gan y Ddeddf neu reoliadau cysylltiedig. Maent yn cynnwys: Fframwaith Rheoleiddio sy’n nodi’r amodau cofrestru a’r amodau cyllido, sy’n pennu gofynion sy’n rhwymo mewn cyfraith y mae’n rhaid i ddarparwyr eu hateb. Mae’r dogfennau hyn yn rhan o’r system reoleiddio statudol ac yn creu rhwymedigaethau gorfodadwy y mae Medr yn eu monitro, gyda’r potensial ar gyfer ymyrryd pe bai diffyg cydymffurfio’n cael ei adnabod.

**Canllawiau Statudol**
Cyhoeddir canllawiau statudol lle mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddarparu canllawiau ynghylch maes penodol, megis Cynlluniau Diogelu Dysgwyr.

**Canllawiau Atodol**
Mae canllawiau atodol yn cynorthwyo darparwyr i ddehongli a chymhwyso amodau statudol. Maent yn anstatudol ac nid ydynt yn creu rhwymedigaethau ychwanegol. Mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr ddefnyddio canllawiau atodol i oleuo eu dull, ond nid oes ganddynt yr un statws cyfreithiol ag amodau neu ganllawiau statudol.

**Fframwaith Ansawdd**
Mae’r Fframwaith Ansawdd yn ddogfen statudol sy’n ofynnol dan y Ddeddf. Mae’n nodi’r dull o sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac mae’n uniongyrchol gysylltiedig â’r amod cofrestru a chyllido sy’n ymwneud ag Ansawdd. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â gofynion y Fframwaith Ansawdd, a bydd Medr yn monitro perfformiad yn ei erbyn fel rhan o’r system reoleiddio. Gan ei fod yn ofynnol yn statudol, mae’n eistedd ochr yn ochr â’r amodau statudol yn hytrach na chael ei drin yn syml fel canllawiau atodol.

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**
Mae’r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ddogfen statudol sy’n ofynnol gan y Ddeddf hefyd. Mae’n diffinio disgwyliadau ar gyfer sut y mae darparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth siapio a gwerthuso eu profiad addysgol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â’r Cod fel rhan o’r amod Ymgysylltu â Dysgwyr.

**Datganiad Ymyrryd**
Mae’r Datganiad Ymyrryd yn ddogfen statudol sy’n ofynnol gan y Ddeddf hefyd. Mae’n nodi’r ystod o swyddogaethau ymyrryd sydd gan Medr yn ôl yr hyn a bennir gan y Ddeddf a sut y byddant yn gweithredu.

*Ffigur 3 – Trosolwg o sut y mae’r amodau’n berthnasol i’r sector trydyddol*

| Amod: | Math o Ddarpariaeth: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Addysg Uwch Gofrestredig | Addysg Bellach | Prentisiaethau | Dysgu Oedolion yn y Gymuned (trwy Awdurdodau Lleol) | 6ed dosbarth mewn ysgolion (Ansawdd trwy Awdurdodau Lleol) |
| Cynaliadwyedd Ariannol (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Llywodraethu a Rheoli (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ansawdd (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Lles Staff a Dysgwyr (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Y Gymraeg (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cynlluniau Diogelu Dysgwyr (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfle Cyfartal (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gweithdrefnau Cwynion (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Sylw i Gyngor a Chanllawiau (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad (Parhaus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Dilysu (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | | | | |
| Statws Elusennol (Categori Craidd AU Yn Unig) (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | | | | |
| Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr (Cychwynnol a pharhaus) | ✓ | | | | |
| Terfynau Ffioedd (Categori Craidd AU Yn Unig) (Parhaus) | ✓ | | | | |
| Hysbysu am Newidiadau sy'n effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth (Parhaus) | ✓ | | | | |
| Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru (Parhaus) | ✓ | | | | |

- melyn - amodau cofrestru sydd hefyd yn amodau cyllido ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru
- gwyrdd - amodau cofrestru yn unig (h.y. nid amodau cyllido)

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government